



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwerthusiad: Rhaglen Ariannu Hyblyg

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu *Wavehill* i werthuso'r ffyrdd y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn cael ei gweithredu gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Nod y gwerthusiad hwn yw darparu gwybodaeth gadarn ac amserol ar weithrediad Ariannu Hyblyg, er mwyn dod i ddeall sut bydd ei darpariaeth yn effeithio ar gyflawniad deilliannau yn y tymor hir.

Fel rhan o'r prosiect hwn, gwahoddir chi i gymryd rhan mewn cyfweiliad ansoddol manwl a fydd yn darparu cipolwg o brofiadau pobl o'r ffordd y rhoddwyd y rhaglen ar waith, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr ar sut y gellid ei gweithredu orau ledled Cymru.

Ar sail canfyddiadau'r gwerthusiad bydd adroddiad ymchwil a chrynodeb gweithredol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd hi'n bosib adnabod unrhyw unigolion o'r adroddiadau ar y canfyddiadau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil hwn. Fodd bynnag, bydd *Wavehill* yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir yn ystod y gwaith maes ymchwil.

Mae cymryd rhan yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu llywio polisiâu Llywodraeth Cymru.

Y person cyswllt yn *Wavehill* ar gyfer y gwerthusiad hwn yw Simon Tanner.

Ffôn: 01545 571711

E-bost: simon.tanner@wavehill.com



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – Gwerthusiad: Rhaglen Ariannu Hyblyg

Pa ddata personol ydyn ni'n ei gadw ac o le ydym yn cael gafael ar y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel “unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr”.

Rhoddwyd eich manylion cyswllt i *Wavehill* gan Lywodraeth Cymru wedi i chi roi caniatâd ar gyfer hynny drwy e-bost i'r tîm Aliniad Ariannu. Bydd *Wavehill* yn cysylltu gyda chi'n uniongyrchol i'ch gwahodd chi i gymryd rhan mewn cyfweiliad manwl gydag ymchwilydd o *Wavehill*.

Nid oes angen i chi ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol fel rhan o'r cyfweiliad. Caiff unrhyw wybodaeth personol adnabyddadwy a ddarperir ei dileu.

Os ydych chi'n gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen i'r swyddog perthnasol yn unig, ac yna ei ddileu o'r data ymchwil.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gynnal cyfrifoldeb a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn hollol wirfoddol. Mae astudiaethau gwerthuso fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth fel sail gweithredu am ei allu i ddarparu blaenoriaethau'r llywodraeth. Er enghraifft, efallai y defnyddir y wybodaeth a gesglir i ddeall sut i gefnogi pobl a theuluoedd sy'n agored i niwed mewn ffordd fwy integredig ac effeithiol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Cedwir yr wybodaeth bersonol a ddarperir i *Wavehill* gan Lywodraeth Cymru yn ddiogel ar bob adeg. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y gwerthusiad sy'n medru defnyddio'r data. Bydd ymchwilwyr cymdeithasol *Wavehill* yn defnyddio manylion cyswllt cyfranogwyr i gysylltu â nhw at ddibenion ymchwil yn unig.

Mae gan *Wavehill* weithdrefnau mewn lle i ddelio gydag unrhyw sefyllfa lle amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio. Os amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio, bydd *Wavehill* yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle bod gofyn cyfreithiol i ni wneud hynny. Mae *Wavehill* wedi ei ardystio gan Cyber Essentials.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hwn yn cael ei adrodd mewn fformat dienw. Ni fydd hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei dileu. Bydd *Wavehill* yn defnyddio'r wybodaeth o'ch cyfweiliad i gynhyrchu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol. Ni ddarperir set ddata ar wahân i Lywodraeth Cymru.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data personol?

Bydd *Wavehill* yn cadw data personol dros gyfnod y cytundeb, a bydd unrhyw ddata personol nad sydd wedi ei ddileu yn cael ei ddileu dri mis wedi diwedd y cytundeb.

Hawliau unigolion

O dan GDPR, mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn cysylltiad â'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu fel rhan o'r gwerthusiad. Mae gennych chi'r hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data chi;
- I fynnu ein bod ni'n cywiro camgymeriadau yn y data hwnnw;
- I (o dan rhai amgylchiadau) wrthwynebu i neu gyfyngu ar y prosesu;
- I fynnu (o dan rhai amgylchiadau) bod eich data yn cael ei 'ddileu'; ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow,
Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan:
www.ico.gov.uk

Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am sut caiff y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech chi arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Sara Ahmad (Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru)
Ffôn: 03000 250 331
E-bost: sara.ahmad@gov.wales

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.